***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1722

## Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2003" ("*2003 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003(**1**).

### Diwygio Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003

**2.** Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau 2003 rhodder y diffiniad a ganlyn lle bynnag y bo'n briodol —

> "mae i "partner sifil" yr ystyr a roddir i "*civil partner*" yn adran 1(1) o Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004(**2**)

**3.** Mewnosodir y geiriau "yn bartner sifil," ar ôl y geiriau "yn briod," yn rheoliad 4(3)(c), (ch) a (d) o Reoliadau 2003.

**4.** Rhodder y testun a ganlyn yn lle rheoliad 4(5) o Reoliadau 2003 —

> "(5) Y pedwerydd amod yw bod y person heb gyrraedd safon cymhwyster addysgol sy'n uwch na Lefel 2 neu ei chyfwerth fel a nodwyd yn y fframwaith cymwysterau cenedlaethol, oni bai bod y person hwnnw yn cael budd-daliadau neu lwfansau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, neu ei fod yn ddibynnydd person o'r fath."

**5.** Yn Rheoliadau 2003 mewnosoder yr Atodlen fel a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

28 Mehefin 2005

(**1**) O.S. 2003/918 (Cy.119).
(**2**) 2004 p.33.
(**3**) 1998 p.38.